

CYMDEITHAS BOB OWEN

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd.

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth:
£5 y flwyddyn (lonawr-Rhagfyr)
i'w anfon at y Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd

Dr Brynley F. Roberts
Hengwrt, Ffordd Llanbadarn,
Aberystwyth, Dyfed SY23 1HB
(0970 623577)

Ysgrifennydd

Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon,
Aberystwyth, Dyfed SY23 1PL
(0970 623174)

Trysorydd

Mies Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre,
Bow Street, Dyfed SY24 5AD
(0970 820235)

Golygydd

Richard H. Lewis
40 Maes Ceiro,
Bow Street, Dyfed SY24 5BG
(0970) 828102

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas
Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dr Rhidian Griffiths
Dr R. Geraint Gruffydd
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
E. Wyn James, Dafydd Jones
Huw Ceiriog Jones
Gwilym Tudur
Y Parchg Dafydd Wyn Wiliam
Huw Williams

Cyhoeddwr Y Casglwr gyda
chymorth ariannol
Cyngor y Celfyddydau

RHIFYN NESAF

Dylid anfon cyfraniadau a
hysbysebion ar gyfer y rhifyn
nesaf a fydd yn ymddangos
ym mis Mai at y Golygydd
erbyn 30 Ebrill fan bellaf, os
gwelwch yn dda.



**Gwasg
Gwynedd**

Cibyn, Caernarfon
Gwynedd

Argraffwyr a
Chyhoeddwyr

Ffôn: (0286) 674486

CYMDEITHAS BOB OWEN

YSGOL UNDYDD

A

CHYFARFOD BLYNYDDOL

1995

PLAS TAN Y BWLCH, MAENTWROG,
DYDD SADWRN, 20 MAI 1995

Thema'r Ysgol Undydd fydd

BYD CYLCHGRONAU CYMREIG

a bydd y gweithgareddau yn cynnwys darlith ar hanes *Cymru* (O.M. Edwards)
gan Dr Huw Walters a seiat ar beth sy'n brin, beth sy'n werthfawr a beth sydd
yn ddiddorol ymysg cylchgronau gyda Dafydd Jones ac eraill.

Bydd yr Ysgol Undydd yn dechrau am 11.00 y bore
a'r Cyfarfod Blynyddol am 3.30 y prynhawn.

Pris: £8.00 yn cynnwys cinio bwffe ysgafn.

Enwau i'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd
erbyn 30 Ebrill fan bellaf, os gwelwch yn dda.

(parhad o dudalen 1)

gyddonol, llyfrau megis,
*Darwinism and Politics, The
Making of Britain, Political
Economy in England, Elements of
Dynamics, Electricity and its Uses.*
O'r gweddill, ceir amryw o
weithiau'r Annibynnwr, Owen
Evans, *Gwyrthiau Crist (1868),
Damhegion Crist (1873)*, ac
amryw o *Gyfes y Goleuni*. Er yn
Annibynnwr, gwelir llyfrau
Owen Evans mewn amryw o'r
llyfrgelloedd sy'n brawf o'i
boblogrwydd ymysg enwadau
eraill.

Ar wahân i'r llyfrau uchod,
gwelir gogwydd Fethodistaidd
megis cyfrolau esboniad James
Hughes ar yr Hen Destament,
Cysondeb y Ffydd, ac amryw o
Lawlyfrau Undeb Ysgolion Sul y
Methodistiaid Calfinaidd. Yr
unig gylchgrawn o fewn y
casgliad oedd *Trysorfa y Plant*.
Yn ychwanegol at yr uchod ceir
copïau o nofelau gan Daniel
Owen sy'n dangos teyrngarwch
lleol.

O ystyried ansawdd y casgliad,
ni ellir llai na thybio fod gan y
llyfrgell ddyletswyddau ehangach
y gymdeithas mewn golwg nag
anghenion crefyddol yn unig. Ni
cheir gogwydd diwinyddol
neilltuol i'r llyfrgell, er yr amlygir
peth teyrngarwch enwadol a
lleol. Bydd y capel hwn yn cau
tua diwedd y flwyddyn 1994.

Seion, Croesoswallt, Lloegr

Gwnaed cyfraniad mawr i fywyd
diwylliannol Cymry alltud gan
gapeli Cymraeg Lloegr. Yn
anffodus, erbyn hyn chwalwyd y
mwyafrif o lyfrgelloedd y capeli
hynny, ond erys un, sef Seion,
Croesoswallt. Ymddengys mai
oddeutu'r flwyddyn 1808 neu
1810 y sefydlwyd yr eglwys.
Adeiladwyd y capel cyntaf yn
1813, a'r trydydd, sef y capel
presennol, yn 1869.

Ni wyddys union ddyddiad
sefydlu'r llyfrgell, ond mae'n
amlwg bod llyfrgell yn Seion cyn
diwedd y ganrif ddiwethaf, gan
y nodir mewn rhai o'r llyfrau
'Cyflwynedig i Lyfrgell Seion
Croesoswallt gan Mr Jenkin,
Park Avenue, Chwefror 1894'.
Bu system o rifo'r llyfrau wrth eu
derbyn mewn grym ar un
cyfnod, ond yn dilyn esgeulustod
y blynyddoedd diwethaf, pylodd
y rhifau ar feingefn y cyfrolau.
Nid oes reolau o fewn y llyfrau,
ond fe geir stamp arbennig
'Llyfrgell Ysgol Sul Seion,
Croesoswallt'. Mae'n amlwg bod
y llyfrgell wedi ei bwriadu yn
arbennig i'r Ysgol Sul yn hytrach
nag ar gyfer yr aelodaeth yn
gyffredinol.

Yn eironig ddigon, ar ôl
Peniel, Llan Ffestiniog, dyma'r
llyfrgell â'r canran uchaf o lyfrau
Cymraeg ynddi, sef 78% o'r
cyfanswm o 170. Yr oedd y capel

Cymraeg yn ddolen gyswilt
bwysig rhwng Cymry Croeso-
swallt a Chymru. Nid rhyfedd
felly oedd gweld lliaws o nofelau
a dramâu yn y casgliad, a
gweithiau cyfeiriadol megis
Llyfryddiaeth y Cymry gan
Gwilym Lleyrn (rhodd i'r
Llyfrgell gan y Llyfrfa yng
Nghaernarfon), nifer o gyfrolau
Cyfes y Fil, O. M. Edwards, a'r
Gwyddoniadur Cymreig.

Ar wahân i weithiau llenyddol
Cymraeg ni chanfuwyd llyfrau
seciwlar yn y llyfrgell hon.
Gweithiau Methodistiaidd oedd y
gweddill, megis *Gweithiau Robert
Jones, Rhoslan* (1898),
esboniadau Cyfundebol a
Geiriadur Beiblaidd Charles
mewn rhannau. Ymhlith y
cylchgronau ceir rhai rhifynnau
o *Y Drysorfa* a *Y Traethodydd*.
Ymysg y llyfrau a gyhoeddwyd
yn arbennig i'r Ysgol Sul ceir
Testament yr Ysgol Sabbathol
(1866), a nifer o lawlyfrau
Undeb Ysgolion Sul y
Methodistiaid Calfinaidd.

Er bod llyfrgell Seion yn llai na
llawer o'r lleill a welwyd, yr oedd
yn llyfrgell uniongyrchol ar gyfer
yr Ysgol Sul, yn bwrpasol,
defnyddiol, a thaclus.

Peniel, Llan Ffestiniog, Sir Feirionnydd

Cymuned hynafol ar lwybrau
(parhad ar dudalen 6)